Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: monitro gan Estyn

**Cylch Shotton**
**Plymouth Street**
**Ysgol Croes Atti Glannau Dyfrdwy**
**Shotton**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 1JD**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Sheila Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Shotton wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r lleoliad ymhen tua tri mis i arolygu cynnydd yn ôl yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Sefydlu gweithdrefnau cynllunio o ansawdd da i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi derbyn arweiniad gan yr awdurdod ar sut i sefydlu gweithdrefnau cynllunio o ansawdd da. Mae'r ymarferwyr hefyd wedi ymweld â chylch cyfagos yn ddiweddar i weld enghraifft o arfer dda ar sut i gynllunio'n fwriadus. O ganlyniad, mae'r arweinydd dros dro wedi dechrau datblygu gwell dealltwriaeth o'r gweithdrefnau cynllunio. Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd cynllunio ar y cyd ond prin yw'r cyfleoedd iddynt ddod at ei gilydd i wneud hyn. Mae'r cynlluniau elfennol sydd ar waith yn cynnwys themâu perthnasol i ddiddordebau'r plant, megis 'y gwanwyn' a 'glan y môr', a gweithgareddau amrywiol sydd yn deillio o'r rhain.

Yn ddiweddar iawn, mae'r cylch wedi dechrau adnabod yr angen i benodi bwriad dysgu pendant sydd yn ffocysu'n briodol ar ddatblygu medrau'r plant. Fodd bynnag, prin iawn yw'r enghreifftiau o hyn yn y cynlluniau. Yn ogystal, nid yw'r ymarferwyr yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r bwriad dysgu wrth gyflwyno'r gweithgaredd i'r plant. O ganlyniad, nid ydynt eto yn canolbwyntio ar ddysgu medrau penodol i'r plant nac yn gallu asesu eu cynnydd yn systematig.

### Argymhelliad 2: Cynllunio'n systematig i ddatblygu medrau Cymraeg plant

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd bwydo iaith yn gyson i'r plant a'u hannog i ymateb. Maent yn gwneud hyn drwy ddefnydd perthnasol o ganeuon syml i gyflwyno ac atgyfnerthu patrymau iaith. Mae'r ymarferwyr hefyd yn darllen straeon Cymraeg yn rheolaidd i'r plant gan sicrhau eu bod yn ynganu'n glir ac yn defnyddio ystod briodol o eirfa. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cynllunio'n ddigon cyson na systematig i ddatblygu medrau Cymraeg y plant.

Yn ddiweddar iawn, mae'r lleoliad wedi dechrau treialu cynllun iaith newydd i ddatblygu'r Gymraeg mewn ffordd strwythedig. Ochr yn ochr â hyn, mae swyddog iaith y Mudiad Meithrin yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i gynnig cefnogaeth. Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r awgrymiadau, er enghraifft trwy rannu'r plant yn ddau grŵp ar ddechrau'r sesiwn er mwyn rhoi mwy o gyfle iddynt wrando ac ymateb. Fodd bynnag, mae hi'n rhy fuan i'r gwaith hwn gael effaith sylweddol ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

**Argymhelliad 3: Cryfhau arferion ac amseroedd pontio fel bod yr holl blant yn cymryd rhan yn llawn**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Gyda chefnogaeth gyson athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, mae'r ymarferwyr wedi cydweithio i gychwyn sefydlu trefn reolaidd i'r sesiynau. Trwy anogaeth yr ymarferwyr, mae mwyafrif y plant yn dangos eu bod yn deall y drefn ac ymateb yn addas. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd rhan gynyddol wrth olchi llestri ar ôl byr-bryd, gwrando ar stori yn briodol a dilyn canllawiau yn foddhaol wrth baratoi i fynd adre.

Fodd bynnag, nid yw'r drefn wedi ei sefydlu'n ddigon pendant a chadarn eto i sicrhau bod yr holl blant yn ymateb yn rheolaidd ac yn annibynnol. Er enghraifft, mae'r cyfarwyddiadau i'r plant ar gyfer amser tacluso yn rhy amwys. O ganlyniad, ychydig iawn o'r plant sy'n ymuno yn y tacluso.

**Argymhelliad 4: Sefydlu system effeithiol i gofnodi arsylwadau ac asesiadau er mwyn bodloni anghenion dysgu plant**

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau trwy gydol y sesiwn yn rheolaidd. Maent yn cofnodi'r arsylwadau o dan y chwe maes dysgu mewn ffeil unigol ar gyfer pob plentyn. O ganlyniad, mae'r staff yn dod i adnabod diddordebau'r plant, a rhai o'r pethau maent yn gallu neu fethu gwneud, yn briodol. Yn achlysurol iawn, mae'r ymarferwyr yn defnyddio eu hadnabyddiaeth o'r plant wrth gynllunio, er mwyn dewis thema i ennyn diddordeb y plant neu i gynnig cyfleoedd ychwanegol i'r plant i ymarfer sgil benodol, megis torri gyda siswrn. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud hyn yn gyson.

Nid yw'r arsylwadau sy'n cael eu cofnodi yn ddigon miniog i helpu'r lleoliad adnabod camau nesaf yn natblygiad y plant. O ganlyniad, nid ydynt yn bodloni anghenion dysgu y plant yn ddigon effeithiol. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi gwneud defnydd buddiol o broffil y Cyfnod Sylfaen er mwyn adnabod cyraeddiadau'r plant wrth iddynt gychwyn yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad wedi cael cyfle i ddefnyddio'r system hon i olrhain cynnydd y plant eto.

**Argymhelliad 5: Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol er mwyn nodi a blaenoriaethau meysydd i'w datblygu yn llwyddiannus**

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Gan ddilyn canllawiau'r awdurdod lleol, mae'r ymarferwyr wedi cychwyn cydweithio er mwyn datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu. Maent wedi gwerthuso'r lleoliad a llunio adroddiadau, ond nid ydynt wedi holi barn y rhieni. Mae'r adroddiad a'r gweithdrefnau yn tueddu i ganolbwyntio gormod ar werthuso'r hyn mae'r lleoliad yn ei ddarparu. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad yn rhoi sylw dyledus i werthuso safonau'r plant. Er bod yr adroddiad yn adnabod mwyafrif o gryfderau'r lleoliad yn briodol, nid yw'n adnabod y blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn effeithiol. Nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu wedi gwreiddio nac wedi arwain at welliannau mesuradwy eto.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ansawdd yr addysg, mae angen i’r lleoliad barhau i fynd i'r afael â'r argymhellion o arolygiad Mai 2015 fel mater o frys.